# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU - ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Ymgynghoriad ar ddata a gwybodaeth – asesiad effaith integredig – asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

| | |
|---|---|
| Teitl a diben y polisi: | Newidiadau i ddata ADY |
| Adran: | Addysg |
| Dyddiad: | Ebrill 2025 |
| Enw’r Gangen: | Tîm Polisi ADY, Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr |

1. **Cyflwyniad - Diben yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Esboniwch pam mae'r asesiad yn cael ei gynnal.**

Mae Llywodraeth Cymru yn cychwyn ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r wybodaeth a'r data y mae'n eu derbyn am anghenion dysgu ychwanegol (ADY) plant a phobl ifanc a'r system ADY er mwyn sicrhau cysondeb â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a chod ADY Cymru 2021.

Cyflwynwyd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn 2018, a dechreuodd y broses o gyflwyno’r system yn 2021. Bydd yn gwbl weithredol erbyn Awst 2025, gan ddisodli'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a'r system ar gyfer cefnogi pobl ifanc ag anawsterau neu anableddau dysgu. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a'i hamcanion yn 2018.

Mae llawer o wybodaeth a thystiolaeth eisoes yn cael eu defnyddio i fonitro'r broses o gyflwyno'r system ADY a'i nodau arfaethedig, ac i lywio'r gwaith o lunio polisïau. Mae'r data hwn wedi bod yn sylfaen i ddadansoddi a chael darlun o weithredu ADY. Mae angen i Lywodraeth Cymru adolygu a diweddaru'r data y mae'n ei gasglu gan awdurdodau lleol ac ysgolion er mwyn darparu, monitro, gwerthuso a galluogi system ADY hunan-wella yn effeithiol. Mae casglu'r wybodaeth gywir yn hanfodol er mwyn sicrhau bod dysgwyr ag ADY yn derbyn cymorth effeithiol i wireddu eu potensial llawn.

Mae'n bwriadu diweddaru'r wybodaeth y mae'n ei derbyn am ADY plant a phobl ifanc, y system ADY, a'r gweithlu drwy'r prosesau casglu data ysgolion statudol perthnasol er mwyn:

- monitro perfformiad y system ADY a'i chanlyniadau, gan sicrhau ei bod yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc a bod modd ei gwella yn barhaus
- deall i ba raddau y mae dyletswyddau o dan y fframwaith deddfwriaethol ADY yn cael eu cyflawni
- llywio penderfyniadau cynllunio strategol a pholisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- helpu rhanddeiliaid i gyflwyno a rheoli'r ddarpariaeth orau bosibl yn effeithiol er mwyn cefnogi eu dysgwyr
- darparu gwybodaeth ac adroddiadau ystyrlon am ADY er budd y sector addysg a rhanddeiliaid

Nod y newidiadau drafft i'r data yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn derbyn data perthnasol y gellir ei gyfiawnhau er mwyn cyflawni'r amcanion uchod, drwy:

- ddileu meysydd AAA etifeddol o'r data a gesglir
- diwygio meysydd AAA sy'n parhau i fod yn berthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r fframwaith ADY
- ychwanegu meysydd newydd i gryfhau gallu Llywodraeth Cymru i gyflawni'r amcanion a nodwyd uchod

Bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), y Cyfrifiad Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) a'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY).

Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu data AAA ac ADY yn eang er mwyn cefnogi'r sector a darparu tryloywder. Rydym yn cynnwys y data hwn mewn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan (SDCCG) sy'n cael eu darparu i ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i hunanwerthuso a gwella. Hefyd, rydym yn cyhoeddi'r data trwy ddatganiadau ystadegol swyddogol, gan gynnwys rhai sy'n cysylltu data ADY â setiau data eraill, er enghraifft dadansoddi absenoldeb neu ddeilliannau TGAU Cyfnod Allweddol 4 yn ôl ADY, ac ar StatsCymru ac ar lefel ysgol ar wefan Fy Ysgol Leol.

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn gwerthuso effeithiau posibl y newidiadau arfaethedig hyn ar grwpiau gwahanol, gan sicrhau bod y dulliau newydd o gasglu data yn hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant oddi mewn i'r system ADY. Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi.

## 2. Cefndir

Mae ein newidiadau arfaethedig yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer defnyddio data a gwybodaeth ac maent wedi'u cynllunio i helpu i feithrin defnydd priodol a chymesur o ddata ledled y system ysgol. Mae'r newidiadau hyn yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig ac ar sut i sbarduno gwelliannau ar gyfer dysgwyr o bob math.

Nid oes disgwyl i'r newidiadau arfaethedig gael effaith wahaniaethol ar ddysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig, y tu hwnt i'r effeithiau cadarnhaol a ddisgwylir ar gyfer yr holl ddysgwyr oherwydd defnydd mwy cytbwys a gwell o ddata a gwybodaeth sy'n canolbwyntio'n llawn ar wella deilliannau i ddysgwyr.

Mae ein cynigion yn canolbwyntio'n gadarn ar ddarparu data mewn cyd-destun, ac ar adlewyrchu heriau sy'n wynebu dysgwyr ac ysgolion gwahanol. Rydym wedi ymrwymo i ddull gweithredu lle mae gwybodaeth yn berthnasol, yn amserol, o ansawdd uchel, ac wedi'i gosod mewn cyd-destun, gan gynnig darlun cynhwysfawr o ysgol ac ystyriaeth decach o ddeilliannau. Mae'r dull gweithredu hwn yn parchu anghenion unigol lleoliadau amrywiol ac yn ystyried nodweddion carfan o ddysgwyr mewn ysgol.

Bydd y newidiadau arfaethedig i brosesau casglu data ADY statudol yn hwyluso dealltwriaeth fwy manwl a chynhwysol o brofiadau dysgwyr ar draws grwpiau amrywiol. Drwy gyflwyno data ar lefel unigol, er enghraifft, ar benderfyniadau a darpariaeth ADY, bydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa well i fonitro sut mae dysgwyr ADY o gefndiroedd ethnig gwahanol, mewn cyd-destunau economaidd-gymdeithasol gwahanol, ac â nodweddion gwarchodedig eraill yn cael eu nodi a'u cefnogi o fewn y system ADY. Trwy wella gwelededd fel hyn, bydd modd cefnogi ymdrechion i nodi gwahaniaethau rhwng mynediad at gymorth a sicrhau bod gweithredu'r system ADY yn hyrwyddo tegwch a chysondeb ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr.

Fe wnaeth y tîm polisi ADY ystyried yn ofalus sut i sicrhau bod y newidiadau arfaethedig yn ystyrlon ac yn gyson a bod y broses o gasglu data yn gyfreithlon ac yn gyfiawnadwy, ac nad yw'n rhoi baich ychwanegol ar ysgolion ac awdurdodau lleol. Bydd y gwaith yn cynorthwyo ysgolion i reoli eu gwybodaeth trwy ddiffinio gofynion data fel sy'n briodol, a bydd yn archwilio'r posibilrwydd o hwyluso datblygiad meddalwedd fasnachol sy'n galluogi ysgolion ac awdurdodau lleol i gofnodi data at eu dibenion eu hunain mewn ffordd gyson ac ystyrlon.

## 3. Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Rydym yn cydnabod y gallai unrhyw newidiadau i ddata ADY a gesglir trwy gasgliadau data statudol effeithio ar randdeiliaid lluosog. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar y cynigion penodol hyn. Er mwyn sicrhau dull gweithredu cynhwysfawr a chynhwysol, yn ystod hydref 2024 fe gynhaliodd yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr/tîm Polisi ADY gyfres o gyfarfodydd (cyn ymgynghori) gydag ystod eang

o randdeiliaid sy'n gyfrifol am blant a phobl ifanc ag ADY, neu sy'n cynrychioli eu buddiannau. Dangosodd y trafodaethau hyn gyfyngiadau'r data presennol a'r cyfleoedd ar gyfer gwella.

Roedd yr ymgysylltiad hwn yn cynnwys:

- **Awdurdodau Lleol**: Ymgysylltodd y tîm Polisi ADY ag awdurdodau lleol er mwyn deall goblygiadau rhanbarthol newidiadau arfaethedig i brosesau casglu data ysgolion. Helpodd hyn i sicrhau bod anghenion a chyd-destunau lleol yn cael eu hystyried, yn enwedig mewn perthynas â'r effaith uniongyrchol ar ddysgwyr ag ADY. Hefyd, cafwyd awgrymiadau gan awdurdodau lleol ynglŷn â sut y gallai data helpu i fonitro a gwella darpariaeth ADY.
- **Ysgolion**: Ymgysylltodd y tîm Polisi ADY ag ysgolion er mwyn clywed eu safbwyntiau, deall eu hanghenion gweithredol, ac archwilio'r agweddau ymarferol ar ddarparu data ADY trwy gasgliadau statudol ac anstatudol. Cafwyd adborth pwysig gan ysgolion ar sut y gellid defnyddio data yn fwy effeithiol i gefnogi dysgwyr ag ADY.
- **Swyddogion Polisi**: Dosbarthwyd arolwg i swyddogion polisi perthnasol er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau arfaethedig yn cyd-fynd â pholisïau presennol ac nad ydynt yn arwain at ganlyniadau anfwriadol. Roedd eu mewnbwn yn gymorth i lunio'r newidiadau data arfaethedig ar gyfer set ddata ADY fwy defnyddiol.
- **Cydlynwyr ADY (CADY)**: Ymgynghorwyd â grŵp bach o CADY er mwyn derbyn gwybodaeth ar lefel ymarferydd am yr heriau a'r cyfleoedd sy'n deillio o'r systemau data presennol. Yn ystod y broses ymgysylltu, cafwyd awgrymiadau am sut i ddefnyddio'r data yn well er mwyn cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i fonitro a gwella'r system a'r ddarpariaeth ADY, gan gynorthwyo dysgwyr ag ADY i wireddu eu potensial yn y pen draw.
- **Estyn**: Ymgysylltodd y tîm polisi ADY ag Estyn er mwyn nodi dulliau o wella'r data ADY sy'n cael ei gasglu gan Lywodraeth Cymru. Roedd eu mewnbwn yn cynnwys awgrymiadau i gryfhau'r set ddata er mwyn cynorthwyo prosesau arolygu, gwerthuso a gwella darpariaeth ADY yn barhaus.

Trwy gynnal y cyfarfodydd a'r arolygon cyn ymgynghori hyn, mae'r Is-adran Cymorth i Ddysgwyr yn dangos ymrwymiad i gynhwysiant a chydymffurfiaeth â'r Ddeddf Cydraddoldeb, gan sicrhau bod anghenion a hawliau plant a phobl ifanc ag ADY yn cael blaenoriaeth wrth ddatblygu polisïau.

Sefydlodd y tîm Polisi ADY Weithgor Mewnol hefyd er mwyn sicrhau bod y broses o nodi'r holl ddata ADY sy'n ofynnol ar gyfer meddalwedd MIS ysgolion ac awdurdodau lleol yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae aelodau yn darparu eu harbenigedd, yn sicrhau cysondeb, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac yn hwyluso penderfyniadau polisi effeithlon. Mae'r grŵp yn adrodd i Uwch Swyddog Cyfrifol y prosiect ac i'r Bwrdd

Rhaglen ADY, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp Llywio ADY a grwpiau perthnasol eraill yn ôl yr angen.

Mae'r Gweithgor Mewnol yn adolygu ac yn ystyried effaith newidiadau ar randdeiliaid a meysydd polisi cysylltiedig, gan sicrhau bod y broses casglu data newydd yn cyd-fynd â pholisïau presennol eraill ac nad yw'n creu gwrthdaro. Mae aelodau yn darparu cyngor arbenigol, yn ymgysylltu â'u rhanddeiliaid eu hunain, ac yn arwain llinynnau gwaith penodol lle bo angen. Hefyd, mae'r grŵp yn darparu mewnbwn i'r ymgynghoriad ac yn darparu sylwadau yn ystod camau pwysig wrth ddiffinio'r newidiadau ADY.

Er nad ydym wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc ar y newidiadau arfaethedig eto, rydym yn archwilio opsiynau ystyrlon i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ag ADY yn ystod y cyfnod ymgynghori, er mwyn sicrhau ein bod yn clywed eu safbwyntiau, e.e. ymgysylltu trwy CADY. Hefyd, byddwn ni'n hysbysu rhieni/gofalwyr am yr ymgynghoriad, gan gynnwys er enghraifft drwy SNAP Cymru, ac rydym yn ymgysylltu â chynrychiolwyr o ysgolion, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill (mae gan lawer ohonynt gysylltiad uniongyrchol â phlant a phobl ifanc).

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y safbwyntiau sy'n cael eu casglu wrth gwblhau'r newidiadau i'r data ADY sy'n cael ei gofnodi a'i gasglu.

4. **Nodi'r ffynonellau data a ddefnyddir ar gyfer yr asesiad.**

Er mwyn cefnogi ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, rydym wedi defnyddio data Llywodraeth Cymru o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gwaith ymchwil cysylltiedig ehangach. Mae hyn yn ein helpu i asesu a yw newidiadau polisi yn cael effaith anghymesur ar grwpiau. Bydd y sylfaen dystiolaeth hon yn llywio ein hasesiad o effeithiau posibl.

Bydd y broses casglu data arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol anghymesur ar blant a'u teuluoedd sy'n byw o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, rhai plant ethnig leiafrifol, plant anabl, plant iau, merched a bechgyn. Bydd cryfhau systemau casglu data yn cael effaith gadarnhaol ar y grwpiau hyn o blant oherwydd bydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa well i fonitro sut mae dysgwyr ADY o'r grwpiau hyn yn cael eu nodi a'u cefnogi yn y system ADY. Bydd y data hwn yn helpu i lywio polisi a deddfwriaeth yn y dyfodol a gwella ymarfer a deilliannau ar gyfer dysgwyr ag ADY.

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad | Tystiolaeth |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Mae Papur Gwaith Bryste [Quantifying the Impact of Additional Learning Needs Identification in Wales 2024] ar ADY yng Nghymru yn dangos bod oedran yn cael effaith sylweddol ar y tebygolrwydd o nodi ADY unigolyn. Mae anghenion ADY plant iau yn llai tebygol o gael eu nodi, o bosibl oherwydd oedi cyn gwneud asesiad. Mae'n defnyddio data i olrhain sut mae nodi anghenion ADY yn newid wrth i ddysgwyr fynd yn hŷn.<br><br>Dylai'r newidiadau arfaethedig arwain at effaith gadarnhaol. Trwy wella prosesau casglu data yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gallwn gefnogi dysgwyr o bob oedran yn well. Bydd y data cynhwysfawr hwn yn ein galluogi i werthuso effeithiolrwydd ymyriadau yn ystod | Mae gwella'r broses o gasglu data ADY yn helpu i olrhain cynnydd dysgwyr dros amser. Mae hyn yn helpu i ddeall sut mae ymyriadau ar gyfer oedrannau gwahanol yn effeithio ar ddeilliannau addysgol a datblygiadol hirdymor. | Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig, gan roi cyfle i blant a phobl ifanc wneud sylwadau ar y wybodaeth rydym yn bwriadu ei chasglu. Bydd fersiwn hawdd ei ddeall ar gael iddyn nhw.<br><br>Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wahân wedi cael ei gwblhau.<br><br>Bydd grwpiau ffocws CADY yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyfnodau bywyd gwahanol, gan sicrhau'r deilliannau addysgol a datblygiadol gorau posibl ar gyfer pob grŵp oedran. Er enghraifft, bydd olrhain cynnydd dysgwyr dros amser yn ein helpu i ddeall sut mae ymyriadau cynnar yn effeithio ar lwyddiant hirdymor, yn ogystal â nodi anghenion dysgwyr hŷn sydd angen gwahanol fathau o gymorth o bosibl. | | |
| Anfantais economaidd-gymdeithasol. Prydau Ysgol am Ddim | Mae gwaith ymchwil yn dangos bod dysgwyr sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn debygol o gael eu gorgynrychioli ymhlith y rhai ag ADY.<br><br>Gwelir hyn mewn data CYBLD lle mae dysgwyr ag ADY bron ddwywaith yn fwy tebygol o ddod o aelwydydd incwm isel, ac mewn data Disgyblion sy'n Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) sydd hefyd yn | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dangos cymhwystra uchel ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn dangos cydberthynas gadarn rhwng anghenion dysgu ychwanegol ac anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Dangosir hyn hefyd yng ngwaith ymchwil y Sefydliad Iechyd, Inequalities in support for special educational needs by free school meal eligibility \| Y Sefydliad Iechyd sy'n cadarnhau'r duedd hon, gan ddangos bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ddwywaith yn fwy tebygol o dderbyn cymorth AAA neu fod â chynllun Addysg, Iechyd a Gofal.<br><br>Mae'r gwaith ymchwil hwn yn awgrymu'r croestoriad rhwng tlodi ac ADY, gan awgrymu bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gallu cynyddu'r tebygolrwydd o nodi ADY a chymhlethdod anghenion cymorth. | | |
| Anabledd/amhariad | Gall dysgwyr anabl wynebu rhwystrau i nodi eu hanghenion a derbyn cymorth oddi mewn i'r system ADY. Mae gwaith ymchwil gan Brifysgol Caergrawnt hefyd yn dangos bod deilliannau addysgol plant ag anableddau yn is a bod eu hansawdd bywyd mewn lleoliadau ysgol yn waeth. [Children with disabilities are being denied equal opportunities for a quality education across the world, including in the UK \| Prifysgol Caergrawnt]. Mae'r canfyddiadau hyn yn atgyfnerthu'r angen i bolisïau ADY sicrhau tegwch wrth nodi a chefnogi dysgwyr anabl.<br><br>Mae'r newidiadau arfaethedig yn debygol o gael effaith gadarnhaol, gan y bydd data sy'n | Bydd y newidiadau arfaethedig i'r broses o gasglu data ysgolion yn hwyluso monitro pellach o'r ddeddf ADY sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i sicrhau bod anghenion pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu diwallu. | Bydd yr ymgynghoriad ar gael mewn fformat hawdd ei ddeall, ac mewn fformatau print bras, Braille ac ieithoedd amgen ar gais. Hefyd, rydym yn ystyried creu fersiwn BSL. Mae hyn yn sicrhau bod pawb, waeth beth fo'u galluoedd neu anableddau, yn gallu cael mynediad at wybodaeth, gwasanaethau a chyfleoedd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gysylltiedig ag anableddau yn cael ei ystyried wrth newid prosesau casglu data ysgolion. Bydd meysydd ADY newydd yn CYBLD a gwelliannau i'r cyfrifiad AHY yn gwella'r broses o gofnodi anghenion. | | |
| Ailbennu Rhywedd (y broses o newid rhyw a phobl Drawsryweddol) | Mae gwaith ymchwil gan Brifysgol Caergrawnt Transgender and gender-diverse individuals are more likely to be autistic and report higher autistic traits \| Prifysgol Caergrawnt yn dangos bod unigolion trawsryweddol a rhywedd-amrywiol yn fwy tebygol o fod yn awtistig a wynebu heriau iechyd meddwl. Felly, gallai polisïau ADY sy'n cynnwys dysgwyr niwrowahanol gael effaith gadarnhaol anghymesur ar unigolion traws trwy ddiwallu anghenion sy'n gorgyffwrdd a gwella mynediad at gymorth. | Mae'r cynigion yn cyd-fynd ag ymrwymiadau cydraddoldeb ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu LHDTC+ a amlinellir yn Transgender A-Z 2023.docx sy'n hyrwyddo diogelwch, cynhwysiant a dilysrwydd ar gyfer pob hunaniaeth rhywedd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r newidiadau arfaethedig i'r system ADY wedi'u cynllunio i gefnogi pob plentyn a pherson ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, waeth beth fo'u hunaniaeth rhywedd. Er nad yw'r cynigion yn rhywedd-benodol, maent wedi'u cynllunio i fod yn gynhwysol, a'u nod yw dileu rhwystrau i ddysgu ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr trawsryweddol neu ddysgwyr sydd yn y broses o ailbennu eu rhywedd. Trwy ganolbwyntio ar anghenion a photensial unigol, mae'r diwygiadau yn hyrwyddo tegwch ac yn sicrhau nad yw dysgwyr trawsryweddol dan anfantais wrth gael mynediad at gymorth neu gyflawni eu nodau addysgol. | | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Mae dogfen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth Additional care for women and newborns with | Mae'r diwygiadau yn seiliedig ar yr egwyddor o ddiwallu anghenion unigryw pob dysgwr ag ADY. Mae hyn yn | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | complications - Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a gwaith ymchwil Prifysgol Brunel Implementing and evaluating resources to support good maternity care for parents with learning disabilities: A qualitative feasibility study in England yn dangos bod menywod ag anableddau dysgu yn wynebu rhwystrau sylweddol yn ystod beichiogrwydd a gofal ôl-enedigol, gan gynnwys stigma, diffyg cymorth wedi'i deilwra, a phrosesau cyfathrebu gwael.<br><br>Mae'r canfyddiadau hyn yn tanlinellu'r angen i sicrhau bod systemau ADY yn cynnwys dysgwyr sy'n rhieni, a dysgwyr â chyfrifoldebau gofal, gan sicrhau nad yw beichiogrwydd neu famolaeth yn cyfyngu ar fynediad at gymorth neu gyfranogiad mewn addysg. | cynnwys dysgwyr a allai fod yn feichiog neu sydd wedi dod yn rhieni yn ddiweddar. Nid oes unrhyw effaith andwyol wedi'i nodi ar gyfer y grŵp hwn, a disgwylir i'r cynigion wella hyblygrwydd ac ymatebolrwydd wrth gynllunio cymorth, a allai fod yn fanteisiol iawn i ddysgwyr sy'n rheoli beichiogrwydd neu famolaeth ochr yn ochr â'u haddysg. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r newidiadau arfaethedig i'r system ADY wedi'u cynllunio i fod yn gynhwysol ar gyfer pob dysgwr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, waeth beth fo'u statws beichiogrwydd neu famolaeth. Er nad yw'r cynigion wedi'u llunio ar gyfer y grŵp hwn yn benodol, maent yn sicrhau bod cymorth yn seiliedig ar anghenion ac amgylchiadau unigol. Mae'r dull gweithredu hwn yn helpu i ddiogelu mynediad cyfartal at addysg a chymorth ar gyfer pobl ifanc sy'n feichiog neu sy'n rhieni newydd. | | |
| Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr lloches a Ffoaduriaid) | Mae gwaith ymchwil gan Brifysgol Caergrawnt Autism rates have increased and show differences in ethnic minorities and links to social disadvantage \| Prifysgol Caergrawnt yn dangos bod cyfraddau awtistiaeth yn amrywio rhwng | Mae'r cynigion yn cyd-fynd ag ymrwymiadau gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru ac arferion ymgynghori cynhwysol.<br><br>Trwy gael y data arfaethedig, bydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa well i olrhain yr effaith ar | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | grwpiau ethnig, gyda disgyblion Du a Tsieineaidd yn fwy tebygol o gael diagnosis, a disgyblion Roma/Teithwyr Gwyddelig yn lleiaf tebygol o gael diagnosis. Mae gwaith ymchwil gan Brifysgol Rhydychen [Ethnic minority children not equally identified with Special Education Needs \| Prifysgol Rhydychen] yn ychwanegu bod llai o ddisgyblion Asiaidd yn cael diagnosis o awtistiaeth, tra bod mwy o ddisgyblion Du Caribïaidd yn cael eu nodi fel disgyblion ag anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol. Mae'r gwahaniaethau hyn - nad ydynt yn cael eu hegluro gan ffactorau economaidd-gymdeithasol - yn nodi'r angen am systemau ADY sy'n sicrhau mynediad teg at gymorth.<br><br>Mae dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu | unigolion ag ADY o hiliau gwahanol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Deithwyr yn wynebu rhwystrau parhaus mewn addysg, gan gynnwys llai o debygolrwydd y bydd eu hanghenion yn cael eu nodi ac y byddant yn derbyn cymorth ar gyfer ADY. Mae canllaw ymarfer da cenedlaethol ttm-good-practice-guide-for-improving-outcomes-for-grt-children-in-education.pdf yn nodi bod disgyblion sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr mewn mwy o berygl o gael eu gwahardd, tangyflawni, a datgysylltu, yn aml oherwydd camddealltwriaeth ddiwylliannol, symudedd, a diffyg ymddiriedaeth mewn gwasanaethau.<br><br>Nod y cynigion ADY yw cefnogi pob dysgwr mewn ffordd deg, waeth beth yw ei gefndir hil neu ethnig. Er nad ydynt yn hil-benodol, maent wedi'u cynllunio i ddileu rhwystrau a hyrwyddo cynhwysiant ar gyfer dysgwyr o | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gymunedau amrywiol. | | |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Mae papur Prifysgol Bryste Inclusive Education in Wales: Interpreting Discourses of Values and Practice Using Critical Policy Analysis yn dangos sut mae gwerthoedd a chredoau, gan gynnwys safbwyntiau crefyddol, yn cael eu dehongli oddi mewn i system addysg Cymru. Er nad yw'r papur hwn yn canolbwyntio ar ADY yn unig, mae'n dangos sut mae safbwyntiau sy'n seiliedig ar ffydd yn gallu llunio agweddau tuag at anghenion dysgu, cynhwysiant a chymorth. Mae hyn yn berthnasol wrth ystyried y canfyddiad o ddarpariaeth ADY ymhlith teuluoedd ffydd a sut maent yn defnyddio'r ddarpariaeth.<br><br>Mae'r cynigion ADY wedi'u cynllunio i gynnwys dysgwyr o bob math, waeth | Mae'r broses ymgynghori wedi'i llunio gan arferion ymgysylltu cynhwysol fel mapio rhanddeiliaid er mwyn sicrhau hygyrchedd i bob cymuned. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | beth fo'u crefydd, eu cred neu eu diffyg cred. Mae'r diwygiadau yn canolbwyntio ar anghenion unigol ac nid ydynt yn rhoi dysgwyr o dan anfantais oherwydd eu systemau ffydd neu gred. | | |
| Rhyw / Rhywedd | Mae gwaith ymchwil gan Brifysgol Durham Girls less likely to be diagnosed with special educational needs yn dangos bod Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) merched yn llawer llai tebygol o gael eu nodi: dim ond traean o'r dysgwyr a nodwyd yn 2022–23 oedd yn ferched. Ategir hyn gan waith ymchwil gan Brifysgol Caergrawnt Autism rates have increased and show differences in ethnic minorities and links to social disadvantage \| University of Cambridge sy'n dangos bod bechgyn yn llawer mwy tebygol o gael diagnosis o | Mae'r cynigion yn cyd-fynd ag ymrwymiadau cydraddoldeb ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu LHDTC+ a amlinellir yn Transgender A-Z 2023.docx sy'n hyrwyddo diogelwch, cynhwysiant a dilysrwydd ar gyfer pob hunaniaeth rhywedd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | awtistiaeth na merched. Mae'r canfyddiadau hyn yn cefnogi'r angen i sicrhau bod systemau ADY yn ymwybodol o rywedd, a bod bechgyn a merched yn cael eu hasesu a'u cefnogi yn deg.<br><br>Dangosodd astudiaeth yn 2023 gan Goleg Prifysgol Llundain (UCL) Significant rise in ADHD diagnoses in the UK \| UCL News - UCL – University College London fod ADHD yn llawer mwy cyffredin ymysg bechgyn na merched, a bod lefelau diagnosis ymysg bechgyn 10-16 oed wedi codi o 1.4% yn 2000 i 3.5% yn 2018. Hefyd, mae bechgyn yn fwy tebygol o gael presgripsiwn am feddyginiaeth ADHD. Mae'r tueddiadau hyn yn awgrymu bod rhai mathau o ADY yn cael eu nodi'n amlach ymysg bechgyn, yn enwedig cyflyrau niwroddatblygiadol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Fodd bynnag, mae'r astudiaeth hefyd yn nodi pryderon am ddiffyg diagnosis mewn ardaloedd difreintiedig, lle mae bechgyn yn gorfod aros yn hirach yn aml neu nad oes ganddynt fynediad at asesiadau preifat.<br><br>Mae'r cynigion ADY wedi'u cynllunio i gefnogi dysgwyr o bob math ar sail eu hanghenion unigol, waeth beth fo'u rhyw neu eu rhywedd. Nid yw'r diwygiadau yn rhywedd-benodol ond maent wedi'u cynllunio i fod yn gynhwysol, gan sicrhau mynediad cyfartal at gymorth i ferched a bechgyn, yn ogystal â dysgwyr â hunaniaethau rhywedd amrywiol. | | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Mae papur academaidd Bryste Quantifying the Impact of Additional Learning Needs Identification in Wales_Knight 2024.pdf yn darparu dadansoddiad ystadegol o nodi ADY yng Nghymru. | Mae'r cynigion yn cyd-fynd ag ymrwymiadau cydraddoldeb ac arferion cynhwysol Llywodraeth Cymru. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r papur yn canolbwyntio ar ddeall sut mae statws ADY yn cael ei ddosbarthu, a gellid ei groesgyfeirio â data demograffig ar ddysgwyr LHDTC+ er mwyn nodi gwahaniaethau.<br><br>Nid oes unrhyw effaith negyddol wedi'i nodi ar gyfer y grŵp hwn. Mae'r cynigion ADY wedi'u cynllunio i gynnwys dysgwyr o bob math, waeth beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol. Mae'r diwygiadau yn canolbwyntio ar anghenion unigol ac nid ydynt yn gwahaniaethu ar sail pwy sy'n ddeniadol i'r dysgwr, gan sicrhau mynediad cyfartal at gymorth i ddysgwyr lesbiaidd, hoyw a deurywiol, a dysgwyr eraill. | | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Nid oes unrhyw effaith negyddol wedi'i nodi ar gyfer y grŵp hwn. Mae'r cynigion ADY wedi'u cynllunio i gefnogi dysgwyr o bob math ar sail eu hanghenion unigol, | Mae'r cynigion wedi'u cynllunio i fod yn gynhwysol, ac maent yn cyd-fynd â dyletswyddau cydraddoldeb ehangach Llywodraeth Cymru. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | waeth beth yw eu statws priodasol neu bartneriaeth. Er bod y nodwedd hon yn fwy perthnasol mewn cyd-destunau cyflogaeth, nid yw'r diwygiadau yn creu unrhyw rwystrau na thriniaeth wahaniaethol i ddysgwyr na staff ar sail a ydynt yn briod neu mewn partneriaeth sifil. | | |
| Dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | Dylai'r newidiadau arfaethedig gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr ag ADY drwy sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu defnyddio data a gwybodaeth ansoddol a meintiol mewn ffordd sy'n cefnogi ymdrechion i sicrhau'r ddarpariaeth orau ar gyfer dysgwyr ag ADY. Mae'r cynigion ADY wedi'u cynllunio'n benodol i wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Maent yn ceisio sicrhau bod dysgwyr o bob math - waeth beth yw eu diagnosis, cefndir, neu leoliad - yn derbyn y cymorth sydd ei angen | Mae'r diwygiadau addysg wedi'u seilio ar egwyddorion cynhwysiant, tegwch a'r model cymdeithasol o anabledd. Maent yn adlewyrchu adborth o'r adolygiad deddfwriaethol o ADY ac yn cael eu hategu gan raglen gadarn o wella data ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu newid a diweddaru casgliadau data ysgolion CYBLD ac AHY er mwyn sicrhau bod y system ADY yn ymatebol, yn dryloyw, ac yn cael | Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wahân wedi'i gwblhau ar gyfer dysgwyr ag ADY.<br><br>Fersiwn hawdd ei deall gyda chwestiynau symlach.<br><br>Bydd ymgysylltiad â dysgwyr yn cael ei hwyluso trwy eu CADY a'i gefnogi gan dîm polisi ADY yn ystod y cyfnod ymgynghori. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | arnynt i oresgyn rhwystrau i ddysgu a gwireddu eu potensial llawn. | ei chymhwyso'n gyson ledled Cymru. | |

**5. Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

**A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl yn eich barn chi? (Darllenwch bwynt 1.4 yng Nghanllawiau'r Asesiad Effaith Integredig i gael rhagor o wybodaeth am Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig).**

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| **Protocol 1: Erthygl 2: Yr hawl i addysg** | Bydd y newidiadau arfaethedig i gasgliadau data ADY ysgolion yn cael effaith gadarnhaol trwy gefnogi gofynion Llywodraeth Cymru i fonitro, gwerthuso a gwella'r broses o gyflwyno'r system ADY newydd. Bydd yn cefnogi ymdrechion i sicrhau'r ddarpariaeth orau ar gyfer dysgwyr ADY. | Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wahân wedi'i gwblhau ac mae wedi canfod y bydd y cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol. | |

**6. Lliniaru - Amlinellwch y camau i leihau neu ddileu effeithiau negyddol.**

- Nod y fersiwn hawdd ei deall o'r cyhoeddiad yw gwella dealltwriaeth o'r diwygiadau ar gyfer plant, pobl ifanc, a theuluoedd ag Anghenion Dysgu

Ychwanegol (ADY). Hefyd, mae'n eu grymuso i leisio eu safbwyntiau ar faterion sy'n effeithio arnynt. Trwy gydweithio ag Anabledd Dysgu Cymru, fe wnaeth yr is-adran Cymorth i Ddysgu sicrhau bod y ddogfen yn cael ei llunio gan unigolion profiadol, gan ei gwneud yn hygyrch i blant a phobl ifanc.

- Rydym wedi ystyried a chreu ffyrdd amrywiol i randdeiliaid a'r cyhoedd ymateb i'r ymgynghoriad er mwyn sicrhau bod pawb, waeth beth fo'u galluoedd neu anableddau, yn gallu cael mynediad at wybodaeth, gwasanaethau a chyfleoedd. Mae hyn yn cynnwys ffurflen arolwg glyfar, e-bost a phost.

- Bydd yr ymgynghoriad ar gael mewn fformat hawdd ei ddeall, ac mewn fformatau print bras, Braille ac ieithoedd amgen ar gais. Hefyd, rydym yn ystyried creu fersiwn BSL. Mae hyn yn sicrhau bod pawb, waeth beth fo'u galluoedd neu anableddau, yn gallu cael mynediad at wybodaeth, gwasanaethau a chyfleoedd.

- Rydym yn chwilio am gyflenwr i drefnu grwpiau ffocws gydag awdurdodau lleol ac ysgolion er mwyn sicrhau ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid allweddol. Trwy gaffael cyflenwr profiadol ar gyfer y grwpiau hyn, ein nod yw casglu gwybodaeth ac adborth gwerthfawr gan y rhai a allai gael eu heffeithio fwyaf gan y newidiadau i'r casgliadau data ysgolion ac i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon lleol.

- Rydym wrthi’n canfod cyflenwr a fydd yn gyfrifol am ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd hyn yn sicrhau bod y dadansoddiad yn cael ei gynnal mewn ffordd ddiduedd, a thrwy hynny’n sicrhau canlyniadau teg a diduedd.

- Er mwyn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed yn ystod yr ymgynghoriad, rydym yn archwilio opsiynau ystyrlon i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ag ADY yn ystod y cyfnod ymgynghori, e.e. drwy CADY.

7. **Gwneud Penderfyniadau - Argymhellion: Darparu argymhellion ar sail y canfyddiadau a nodi'r penderfyniad terfynol yn ymwneud â'r polisi neu'r ymarfer.**

**Datganiad**

Rhagwelir y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar faterion cydraddoldeb.

Bydd y newidiadau arfaethedig i'r data a gesglir trwy gyfrifiad CYBLD a chyfrifiad AHY yn cael eu defnyddio i roi darlun cywir o nifer y plant a phobl ifanc yng Nghymru

ag ADY a natur eu hanghenion. Mae nodweddion gwarchodedig wedi cael eu hystyried ac ni ragwelir y bydd unrhyw effaith negyddol.